

Lesley Griffiths AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/0055/18

David Melding AC, CBE  
Cadeirydd Dros-dro  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

[SeneddCLA@assembly.wales](mailto:SeneddCLA@assembly.wales)

B

Chwefror 2018

Annwyl David

Diolch am eich llythyr pellach dyddiedig 23 Ionawr ynghylch Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017. Rydych wedi gofyn am eglurhad o safbwynt ymateb Llywodraeth Cymru i bwynt 3 ar adrodd technegol, mewn perthynas ag effaith ôl-weithredol y Gorchymyn.

Mae'r angen i sicrhau bod cyfiawnhad dros ddarpariaethau ôl-weithredol sy'n ymddangos mewn deddfwriaeth yn fater hollbwysig i Lywodraeth Cymru.

Gan fod gofyn am gyfiawnhad arbennig, mae angen caniatâd y Cwnsler Cyffredin ar gyfer darpariaethau o'r fath. Rhoddodd Cwnsler Cyffredinol Cymru ar y pryd y caniatâd hwnnw a chan gadw'r caniatâd hwnnw mewn cof, a finnau eisoes wedi ymrwymo i ystyried pob buddiant perthnasol, penderfynais fod hwn yn drywydd priodol i'w ddilyn sy'n ategu'r profion cyfiawnhau a bennwyd gan y Goruchaf Lys.

*Yn gywir  
Lesley*

**Lesley Griffiths AC/AM**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.